Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Enwebu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Ionawr 2022

www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Enwebu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Ionawr 2022

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru



**Peter Fox AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys


**Rhagair y Cadeirydd** ........ **5**

**Argymhelliad** ........ **7**

**1. Cefndir** ........ **8**

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ........ 8

Manyleb y swydd a'r person ........ 9

Y broses recriwtio ........ 10

**2. Yr ymgeisydd a ffefrir** ........ **12**

**Atodiad A: CV – Michelle Morris** ........ **13**

# Rhagair y Cadeirydd

Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru rôl hollbwysig i'w chwarae yn sector cyhoeddus Cymru; gan sicrhau bod unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n credu ei fod wedi dioddef anghyfiawnder drwy gamweinyddu neu drwy fethiant yng ngwasanaeth corff cyhoeddus yn gallu gwneud cwyn ar sail y sicrwydd yr ymdrinnir â'r gŵyn mewn modd teg ac yn annibynnol.

Roedd disgwyl y byddai'r Ombwdsmon presennol, Nick Bennett, yn cwblhau ei gyfnod yn y swydd ar 31 Gorffennaf 2021, ond fe'i penodwyd i barhau dros dro yn y rôl am wyth mis arall hyd at 31 Mawrth 2022. Hoffwn ddiolch i Nick am ei gyfraniad yn ystod ei gyfnod fel Ombwdsmon ac am barhau dros dro yn y rôl. Yn benodol, bydd gwaddol parhaus yn sgil ei waith o fynd ar drywydd datblygiad Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, sy'n rhoi pwerau i'r Ombwdsmon i ymchwilio ar ei liwt ei hun i gwynion, ynghyd â sefydlu cwynion enghreifftiol.

Ar gyfer y Chweched Senedd, mae gan y Pwyllgor Cyllid gyfrifoldebau goruchwylio mewn perthynas â'r Ombwdsmon, sy'n cynnwys pennu ymgeisydd addas i'w enwebu fel yr Ombwdsmon olynol.

Wrth gyflawni ei gyfrifoldebau, mae'r Pwyllgor wedi sylwi ar yr angen am broses a fyddai'n bodloni disgwyliadau pobl Cymru o ran cadernid a thryloywder. Roedd hefyd yn hanfodol bod y broses yn cael ei chynnal mewn ffordd sy'n ei datgysylltu oddi ar unrhyw awgrym o ymyrraeth wleidyddol. O'r herwydd, sicrhawyd fod dau grŵp plaid yn cael eu cynrychioli ar y panel penodi ac, at hynny, cynhaliwyd gwrandawiad cyn enwebu'r Pwyllgor Cyllid trawsbleidiol. Mae Rheol Sefydlog 10.6 y Senedd yn ein galluogi i geisio tystiolaeth gan ymgeisydd a ffefrir ar gyfer y penodiad er mwyn ystyried a yw'r Pwyllgor yn cefnogi'r penodiad. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod gwrandawiad cyn enwebu yn sicrhau bod yr ymgeisydd a nodwyd yn y broses recriwtio fel yr unigolyn mwyaf addas yn destun archwiliad agored a thryloyw. Mae hefyd yn rhoi hyder ychwanegol i'r Pwyllgor, a'r Senedd yn y pen draw, bod yr ymgeisydd a ffefrir yn addas i'w enwebu i'w Mawrhydi i'w benodi.

Wrth gynnal y gwrandawiad hwn cyn enwebu, roedd Aelodau'r Pwyllgor yn awyddus i holi'r ymgeisydd a ffefrir ynghylch ei phrofiad blaenorol a'i dyheadau ar gyfer bwrw ymlaen â gwaith yr Ombwdsmon yng Nghymru.

Mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad mai Michelle Morris yw'r ymgeisydd a ffefrir ar gyfer y swydd hon, ac edrychaf ymlaen at weithio gyda hi yn y dyfodol.

Yn olaf, mae'n werth nodi mai dyma'r penodiad cyntaf ar gyfer yr Ombwdsmon ers i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 ddod i rym, a hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid blaenorol yn y Bumed Senedd am ei chyflwyno a sicrhau ei hynt lwyddiannus.



**Peredur Owen Griffiths AS**
**Cadeirydd**

# Argymhelliad

**Argymhelliad 1.** Ar 16 Rhagfyr 2021 cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid wrandawiad cyn enwebu gyda Michelle Morris, yr ymgeisydd a ffefrir gan y panel cyfweld ar gyfer swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r Pwyllgor yn argymell Michelle Morris fel yr ymgeisydd a ffefrir i'w henwebu i'w Mawrhydi i'w phenodi'n Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru........ Tudalen 12

# 1. Cefndir

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

**1.** Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) yn benodiad y Goron a wneir ar enwebiad y Senedd o dan Atodlen 1[1] i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Deddf 2019).[2]

**2.** Penodwyd yr Ombwdsmon presennol, Nick Bennett, ym mis Awst 2014 am gyfnod o saith mlynedd, sydd yn dod i ben ar 31 Gorffennaf 2021 yn unol â Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.[3]

**3.** Ym mis Tachwedd 2020, trafododd Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y Bumed Senedd - fel y Pwyllgor a oedd yn gyfrifol ar y pryd am oruchwylio'r Ombwdsmon - yr opsiynau sydd ar gael i fodloni'r terfyn amser ar gyfer recriwtio Ombwdsmon newydd. Ei ddewis oedd argymell bod y Senedd yn enwebu Nick Bennett ar sail dros dro ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Awst 2021 a 31 Mawrth 2022, fel "penodiad â therfyn amser penodol o 8 mis yn unig"[4]. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid gwneud penodiad dros dro am nifer o resymau, gan gynnwys yr amser prin a oedd ar gael i gwblhau'r broses recriwtio oherwydd y pandemig, ac etholiadau'r Senedd a oedd ar ddod ym mis Mai 2021. Ar 27 Ionawr 2021, pleidleisiodd y Senedd dros dderbyn yr argymhelliad.[5]

**4.** Sefydlwyd Pwyllgor Cyllid y Chweched Senedd ar 23 Mehefin 2021 ac mae ei gylch gwaith yn cynnwys goruchwylio'r Ombwdsmon o dan Reol Sefydlog 18A, gan gynnwys cynghori'r Senedd ar benodi'r Ombwdsmon. Ar 14 Gorffennaf 2021[6] a 15 Medi 2021[7], bu'r Pwyllgor Cyllid yn trafod ei ddull o recriwtio'r Ombwdsmon a'r trefniadau o ran tâl, yn y drefn honno.

**5.** Mae prif swyddogaethau'r Ombwdsmon wedi'u nodi o dan Ddeddf 2019, sef:

---

[1] Atodlen 1, Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (dccc 3)

[2] Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (dccc 3)

[3] Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (p.10)

[4] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Penodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Dros Dro i Gymru, 20 Ionawr 2021

[5] Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2021, eitem 5

[6] Y Pwyllgor Cyllid, *Agenda*, 14 Gorffennaf 2021

[7] Y Pwyllgor Cyllid, *Agenda*, 15 Medi 2021

- Darparu gwasanaeth ymchwilio i gwynion sy'n rhad ac am ddim ac yn annibynnol a gwneud penderfyniadau terfynol ar gwynion gan aelodau o'r cyhoedd eu bod wedi dioddef naill ai caledi neu anghyfiawnder o ganlyniad i gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan gyrff cyhoeddus a darparwyr gofal annibynnol yng Nghymru (lle mae cwynion o'r fath wedi methu â chael eu datrys drwy weithdrefnau cwynion y sefydliadau eu hunain).

- O dan bennod III o Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000[8], ymchwilio i gwynion bod aelodau etholedig awdurdodau lleol yng Nghymru wedi torri cod ymddygiad eu hawdurdod. Mae hyn yn cynnwys aelodau cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac awdurdodau parciau cenedlaethol.

- Llywio gwelliant ehangach mewn gwasanaethau cyhoeddus ac annog achosion o ddysgu gwersi yn sgil cwynion. Rhoddodd Deddf 2019 bwerau newydd i'r Ombwdsmon gyhoeddi prosesau safonol o ymdrin â chwynion ar gyfer cyrff cyhoeddus o fewn cylch gwaith statudol yr Ombwdsmon, ac i fonitro a hyrwyddo arfer gorau wrth ymdrin â chwynion. At hynny, rhoddodd Deddf 2019 bwerau newydd i'r Ombwdsmon gynnal ymchwiliadau 'ar ei liwt ei hun' heb i gŵyn gael ei gwneud, er enghraifft, mewn amgylchiadau lle mae gan yr Ombwdsmon amheuaeth resymol o gamweinyddu systemig.

## Manyleb y swydd a'r person

**6.** Caiff yr Ombwdsmon ei benodi i'r rôl am un cyfnod o saith mlynedd ac ni ellir ei ailbenodi, fel sy'n ofynnol gan Atodlen 1 i Ddeddf 2019.[9]

**7.** Yn unol ag Atodlen 1 i Ddeddf 2019 a Rheol Sefydlog 18A.2(ii), bu'r Pwyllgor yn ystyried y trefniadau o ran tâl ar gyfer yr Ombwdsmon. Cytunodd i hysbysebu'r swydd gyda chyflog o £147,000, a fydd yn cael ei addasu'n flynyddol yn ôl y newid canrannol amcangyfrifedig yn y data diweddaraf yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) ar gyfer yr enillion canolrif gros blynyddol ar gyfer swyddi cyflogeion amser llawn yng Nghymru, fel y cyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, gyda therfyn isaf ac uchaf o 0 y cant a 3 y cant.

**8.** Roedd y fanyleb person yn nodi y byddai angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu tystiolaeth o wybodaeth, profiad a chymwyseddau ynghylch y canlynol:

[8] Deddf Llywodraeth Leol 2000 (p.22)

[9] Atodlen 1, Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (dccc 3)

- Y gallu i ddangos hanes o arwain a rheoli strategol ar lefel uwch, a'r gallu i gyfleu diben ac arweiniad strategol.
- Craffter a sgiliau dadansoddi rhagorol a gallu amlwg i weithredu, i wneud penderfyniadau anodd sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn annibynnol ac yn ddiduedd, ac i nodi, gwerthuso a rheoli risg.
- Sgiliau ariannol a rheoli profedig, gan gynnwys y gallu i ddarparu gwerth am arian a chyflawni rhagoriaeth weithredol mewn amgylchedd ag adnoddau cyfyngedig, a gallu amlwg i sicrhau llywodraethu a gweinyddu da.
- Sgiliau cyfathrebu, dylanwadu a chyd-drafod da wrth ymdrin ag ystod eang o randdeiliaid, er enghraifft y cyhoedd, cyrff cyhoeddus, cynrychiolwyr etholedig, sefydliadau cymunedol, staff a'r cyfryngau.
- Ymrwymiad cryf a gweladwy i ddiogelu hawliau dinasyddion, ac i amrywiaeth, hawliau dynol, cynhwysiant a chyfle cyfartal.
- Uniondeb, hyblygrwydd a'r gallu i ennyn hyder unigolion pwysig ym mywyd cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a'r sector iechyd.
- Gwybodaeth ymarferol o'r system llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru, a/neu gyfraith weinyddol a/neu strwythurau'r sector cyhoeddus yng Nghymru a sut mae'r sector yn gweithio.
- Dealltwriaeth o saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan ac ymrwymiad iddynt, a phrofiad o gyrraedd y safonau proffesiynol hyn[10] (neu safonau proffesiynol tebyg).

## Y broses recriwtio

**9.** Hysbysebwyd y rôl ar 23 Medi 2021 a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 22 Hydref 2021.[11]

**10.** Er mwyn annog maes cryf ac amrywiol o ymgeiswyr, cytunodd y Pwyllgor i benodi **Penna**, sef asiantaeth chwilio weithredol, i ymgymryd ag agweddau penodol ar y broses recriwtio, gan gynnwys:

[10] Y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, *Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus*

[11] Senedd Cymru, *Penodiadau Cyhoeddus: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru*, 23 Medi 2021

- hysbysebu'r rôl;
- nodi ymgeiswyr posibl a chysylltu â hwy, a
- sifftio ymgeiswyr a chynnal cyfweliadau rhagarweiniol.

**11.** Hysbysebwyd y rôl gan ddefnyddio cyfuniad o ddeunydd wedi'i argraffu, cyhoeddiadau electronig, y cyfryngau cymdeithasol a chysylltiadau personol. Gosodwyd yr hysbyseb mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys gwefannau'r Western Mail, Sunday Times, y Senedd a Penna ac roedd ymgyrchoedd LinkedIn a Twitter wedi'u targedu i gyd-fynd â hynny.

**12.** Pedair wythnos oedd hyd y cyfnod ar gyfer cyflwyno cais. Daeth 21 o geisiadau i law, 10 gan fenywod ac 11 gan ddynion.

**13.** Cynhaliwyd proses sifftio ragarweiniol gan y Cadeirydd ar ran y panel llawn ar 11 Tachwedd 2021 a dewiswyd 13 o ymgeiswyr i fod ar y rhestr hir. Yn dilyn hynny, cynhaliodd Penna gyfweliadau rhagarweiniol gyda'r ymgeiswyr, a oedd yn cynnwys profion seicometrig i roi cipolwg ar arddull a rhinweddau rhyngbersonol pob ymgeisydd.

**14.** Yn dilyn hynny, cytunodd y panel dethol ar restr fer o ymgeiswyr ar 18 Tachwedd 2021, gydag wyth o'r 13 o ymgeiswyr ar y rhestr hir yn cael eu dewis ar gyfer cyfweliad. Roedd swyddogion y Senedd hefyd yn bresennol i roi cyngor a chymorth gweithdrefnol. Dyma aelodau'r panel:

- Cadeirydd - Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid)
- Rhianon Passmore AS (Aelod o'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus)
- Manon Antoniazzi (Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd)
- Peter Tyndall (Ombwdsmon, Comisiynydd Gwybodaeth, a Chomisiynydd Gwybodaeth Amgylcheddol Iwerddon)

**15.** Cynhaliwyd y cyfweliadau ar 2 a 3 Rhagfyr 2021, lle cafwyd cyflwyniadau gan yr ymgeiswyr a chawsant eu holi ar y meini prawf a nodir ym mriff yr ymgeisydd.

# 2. Yr ymgeisydd a ffefrir

**16.** Cytunodd y panel mai Michelle Morris oedd yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer enwebiad. Cynhaliodd y Pwyllgor wrandawiad cyn enwebu gyda'r ymgeisydd a ffefrir ar 16 Rhagfyr 2021 er mwyn ystyried ei chefndir a'i phrofiad proffesiynol ac i gael dealltwriaeth o'i dyheadau, gan gynnwys sut y byddai'n ymgymryd â'r rôl. Mae trawsgrifiad o'r sesiwn dystiolaeth ar gael ar dudalennau gwe y Pwyllgor Cyllid.[12]

**Argymhelliad 1.** Ar 16 Rhagfyr 2021 cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid wrandawiad cyn enwebu gyda Michelle Morris, yr ymgeisydd a ffefrir gan y panel cyfweld ar gyfer swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r Pwyllgor yn argymell Michelle Morris fel yr ymgeisydd a ffefrir i'w henwebu i'w Mawrhydi i'w phenodi'n Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

[12] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 16 Rhagfyr 2021, paragraffau 8-62

# Atodiad A: CV – Michelle Morris

**Hydref 2017 hyd yma**

Prif Weithredwr (Rheolwr Gyfarwyddwr), Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

- Yn gyfrifol am arweinyddiaeth gyffredinol y sefydliad, fel Pennaeth y Gwasanaeth Taledig, a phrif gynghorydd polisi i Aelodau Etholedig sy'n atebol am ddarparu gwasanaethau yn unol â blaenoriaethau'r cyngor.
- Yn gyfrifol am reolaeth strategol y Cyngor, ei weithlu o 3,500 a chyllideb flynyddol o £180 miliwn, ac am ddatblygu polisi a darparu gwasanaethau, gan ddefnyddio dulliau arloesol o sicrhau newid a chanlyniadau gwell.
- Rheoli cymhlethdod, gweithio gyda sawl rhanddeiliad, Cynrychiolwyr Etholedig, cymunedau a defnyddwyr gwasanaeth.
- Gweithio ar draws y sector cyhoeddus, drwy bartneriaethau a chydweithredu, gan gynnwys Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Yn gyfrifol am arwain ymateb brys y Cyngor i'r pandemig a'r adferiad ohono, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth ar draws y sector cyhoeddus drwy'r Grŵp Cydgysylltu Strategol Rhanbarthol.
- Yn gyfrifol am sicrhau llywodraethu cryf a safonau ymddygiad uchel, o fewn y Cyngor, ac wedi arfer bod yn atebol mewn swydd gyhoeddus.
- Lefel uchel o wytnwch personol a chynnal y safonau moesegol sy'n ofynnol yn y sector cyhoeddus.

**Chwefror 2008 i Hydref 2017**

Dirprwy Brif Weithredwr a Swyddog Monitro (Prif Weithredwr Cynorthwyol yn flaenorol), Cyngor Ucheldiroedd yr Alban

- Yn gyfrifol am arwain Gwasanaethau Corfforaethol a Newid ar draws y sefydliad.
- Dirprwyo ar ran y Prif Weithredwr wrth arwain a datblygu'r sefydliad.

- Swyddog Monitro (rôl statudol) sy'n gyfrifol am ymddygiad a llywodraethu corfforaethol, gan sicrhau bod y Cyngor yn cynnal y safonau uchaf a bod materion yn cael eu trin yn brydlon ac yn briodol.

**2004 i 2008**

Prif Weithredwr Cynorthwyol, Dinas a Sir Abertawe

**2000 i 2004**

Pennaeth Cyfathrebu a Chysylltiadau Cwsmeriaid, Cyngor Sir Caerfyrddin

**1997 i 2000**

Cydgysylltydd Marchnata Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro

**1995 i 1997**

Swyddog Datblygu Twristiaeth a’r Gymuned, Menter Preseli (Rhaglen LEADER yr UE)

**1990 i 1995**

Swyddog Datblygu Twristiaeth a’r Gymuned, SPARC (Rhaglen LEADER yr UE)

**1987 i 1990**

Rheolwr Marchnata, Mendip Foods (Gwlad yr Haf)

**Gwybodaeth berthnasol arall**

Cymwysterau

- Gradd Feistr mewn Gweinyddu Busnes – Prifysgol Morgannwg 1996-1999
- Gradd MSc mewn Marchnata – Sefydliad Cranfield 1986-87

Rolau Anweithredol a Rolau Proffesiynol

- Pembrokeshire MENCAP Ltd – Cyfarwyddwr ac Ymddiriedolwr (penodwyd yn 2019)
- Cyd-bwyllgor Archwilio Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu/Heddlu Dyfed Powys (penodwyd ym mis Hydref 2021)
- Aelod SOLACE (Cymru)